102 Hirwain Street
Cathays
Caerdydd
CF24 4JH

Pharmaron
The Old Glassworks
Nettlefold Road
Caerdydd
CF24 5JQ

14/05/2024

Annwyl Reolwr Recriwtio,

Rwy'n fyfyriwr ail flwyddyn Cemeg gyda Blwyddyn mewn Diwydiant ym Mhrifysgol Caerdydd ac rwy'n ysgrifennu atoch chi i wneud cais am y rôl Myfyriwr Lleoliad Diwydiannol mewn Cemeg Synthetig yn Pharmaron. Mae gen i brofiad o ymdrin â heriau gwyddonol cymhleth a chyfleu materion cymhleth. Rwy'n awyddus i gael rhagor o brofiad ym maes cemeg synthetig.

Rwy'n awyddus i ymwneud â maes cemeg synthetig, gan gael profiad ymarferol yn defnyddio offer o'r radd flaenaf i wella fy sgiliau ymarferol, sy'n hanfodol am yrfa lwyddiannus ym maes cemeg. Mae'r gobaith o gael ymwneud yn uniongyrchol â darganfod cyffuriau a synthesis cynhwysion fferyllol gweithredol (APIs) yn gyfle cyffrous, mae ganddo'r potensial i gael effaith go iawn ar ddatblygu meddyginiaethau sy'n newid bywydau. Mae dull unigryw Pharmaron tuag at ymchwil, sy'n cynnwys dylunio llwybrau, datblygu dulliau, a synthesis cynhwysion fferyllol gweithredol, yn rhoi cyfle heb ei ail imi ddysgu a datblygu gwybodaeth. Mae gen i ddiddordeb mawr yn arbenigedd Pharmaron mewn datblygu cyffuriau â chymorth cyfrifiadur a dylunio ar sail sgaffaldio a tharo adnabyddiaeth, gan fod y methodolegau hyn ar flaen y gad o ran arloesedd fferyllol; dyma gyfle i ddatrys problemau'n ymarferol ym maes cemeg. Mae Pharmaron yn meithrin mentrau gwaith ymchwil ar y cyd, a byddai ymuno'n rhoi cyfle unigryw i fod yn rhan o waith ymchwil arloesol a chyfrannu'n ystyrlon at ddatblygiadau ym maes y gwyddorau fferyllol.

Mae gen i ddiddordeb yn y byd academaidd a gweithgareddau y tu hwnt i hyn, ac felly bydda i mewn sefyllfa dda i gynnig sgiliau hyblyg i Pharmaron. Rwy'n llywydd y Gymdeithas Cemeg, ac yn gallu cydweithio'n dda â fy nghyfoedion drwy ddefnyddio dull sy'n rhoi pwyslais ar ganlyniadau i gyflawni amcanion gyda'n gilydd. Rydyn ni hefyd yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol ac addysgol ar y cyd i annog pobl i gymryd rhan ac i feithrin awyrgylch diogel i fyfyrwyr Cemeg. Rwy bellach yn anelu at radd Cemeg 2:1 uchel, mae fy llwyddiannau academaidd yn ategu fy ngallu i ymdrin â heriau gwyddonol cymhleth. Drwy gwblhau aseiniadau a chyflwyniadau rwy wedi cael cyfleoedd gwerthfawr i wella fy sgiliau ac i fynegi cysyniadau cymhleth yn eglur ac yn fanwl gywir. Ar ben hynny, cefais brofiad o weithio'n gynorthwyydd gwasanaethau i gwsmeriaid, ble gwnes i ddatblygu fy sgiliau cyfathrebu ar lafar yn sylweddol, a fy ngalluogi i ymwneud â gwahanol bobl mewn modd croesawgar a chyfeillgar. Rwy wedi datblygu fy ngallu i roi sylw i fanylion a datrys problemau'n gyflym mewn awyrgylch prysur iawn. O ganlyniad i fy agwedd gydwybodol, a sgiliau trefnu da, rwy'n awyddus i lwyddo'n annibynnol wrth gyfrannu'n gadarnhaol tuag at brosiectau arloesol.

Mae Pharmaron wedi ymrwymo i arloesi ac i ddefnyddio methodolegau blaengar, sy'n berthnasol iawn i'm dyheadau. Rwy'n awyddus i gyfrannu at fentrau ymchwil arloesol a chydweithio â gweithwyr proffesiynol profiadol, gan gyfrannu fy ngwybodaeth dechnegol fy hun, cyfathrebu a sgiliau cydweithredol. Diolch am ystyried fy nghais ac edrychaf ymlaen at drafod hyn ymhellach gyda'ch tîm.

Yn gywir,

**Eich enw**